## Y Cydbwyllgor Archwilio
## Egwyddorion Gweithredu a Chylch Gwaith

### 1. Datganiad Diben

1.1 Diben y Cydbwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r rhai sy'n llywodraethu ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol, ac uniondeb adroddiadau ariannol a phrosesau llywodraethu. Trwy oruchwylio archwilio mewnol ac allanol mae'n gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ar waith.

### 2. Cwmpas

2.2 Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn rhoi sylwadau, cyngor a sicrwydd ynglŷn â materion yn ymwneud ag amgylchedd rheoli mewnol yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Swyddfa'r Comisiynydd). Mae'n goruchwylio materion llywodraethu cyffredinol a bydd yn rhoi sylwadau ar unrhyw bolisïau neu strategaethau newydd neu arfaethedig neu newidiadau i bolisïau a strategaethau perthnasol sydd mewn bodolaeth sydd ym marn y Prif Swyddogion Cyllid yn arwyddocaol o ran risg ac uniondeb ariannol.

2.3 Os bydd gan y Cydbwyllgor Archwilio bryderon ynghylch mater llywodraethu neu archwilio penodol gall ofyn bod y polisi neu strategaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno i'r Cydbwyllgor er mwyn cael sicrwydd a darparu sylwadau adeiladol lle y bo'n briodol.

2.4. **NID** yw'r canlynol yn dod o fewn terfynau gwaith y Cydbwyllgor Archwilio:

- Perfformiad ystadegau trosedd
- Risgiau gweithredol yr heddlu.
- Adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ar thema/sail weithredol
- Rheolaeth y swyddogaeth archwilio mewnol.
- Unrhyw adolygiadau a gynhelir gan Banel yr Heddlu a Throsedd.

### 3. Cymhwysedd i fod yn aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio

3.1 Rhaid i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio fod yn annibynnol ar y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd). Nid yw swyddogion heddlu sy'n gwasanaethu, staff yr heddlu na staff a gyflogir gan Swyddfa'r Comisiynydd yn gymwys i gael eu penodi. Rhaid i unigolyn sydd wedi bod yn gyflogedig yn y modd hwn fod wedi cael seibiant o isafswm o flwyddyn cyn cael ei benodi i wasanaethu ar y Cydbwyllgor Archwilio.

3.2 Nid yw gweithgarwch gwleidyddol ynddo'i hun yn rhwystro penodiad. Gofynnir i ymgeiswyr ddatgan gweithgarwch gwleidyddol arwyddocaol (sy'n cynnwys dal swydd, siarad yn gyhoeddus, gwneud cyfraniad ariannol cofnodadwy neu ymgeisyddiaeth ar gyfer etholiad) y maent wedi ymwneud ag ef yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rhoddir yr wybodaeth hon i'r panel recriwtio ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y cam cyfweliad. Bydd manylion gweithgarwch gwleidyddol a gafodd ei ddatgan gan yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi.

3.3 Cyn y gellir cadarnhau penodiad i'r Cydbwyllgor Archwilio, bydd angen gwirio cefndir ymgeiswyr yn llwyddiannus at lefel personél nad ydynt yn yr heddlu - lefel 2. (Dylai ymgeiswyr nodi bod rhaid datgan pob arést, euogfarn a rhybuddiad ar y ffurflen gwirio cefndir pa unai ydynt wedi eu "disbyddu" neu beidio o dan delerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr).

3.4 Nid yw unigolyn sy'n fethdalwr heb ei ryddhau yn gymwys i gael ei benodi i'r Cydbwyllgor Archwilio.

3.5 Nid yw unigolyn sydd ar Banel yr Heddlu a Throsedd, neu sy'n gynghorydd neu'n gyflogedig gan gyngor sy'n cael ei gynrychioli ar y Panel, yn gymwys i gael ei benodi i'r Cydbwyllgor Archwilio.

3.6 Rhaid i bawb a benodir lofnodi datganiad eu bod yn cytuno i gynnal Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Safonau Bywyd Cyhoeddus y Pwyllgor.

3.7 Rhaid i bawb a benodir gytuno eu bod yn fodlon i'w henw, llun a datganiad o fuddiannau gael eu cyhoeddi - gan gynnwys ar wefan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

3.8 Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd, rhaid i bawb a benodir gytuno i fod yn destun proses arfarnu gyda Chadeirydd y Cydbwyllgor.

**4. Manyleb yr Unigolyn**

4.1 Pwrpas y rôl: darparu sicrwydd, cyngor a sylwadau annibynnol ar faterion llywodraethu.

4.2 Er mwyn cyflawni ei amcanion, dylai'r Cydbwyllgor Archwilio fel corff feddu ar y canlynol:

- Ymwybyddiaeth ariannol.
- Ymwybyddiaeth o faterion cyfrifyddu cyfredol.
- Dealltwriaeth o ddyletswyddau statudol a gofynion deddfwriaethol perthnasol
- Dealltwriaeth o egwyddorion rheoli risg
- Gwybodaeth am egwyddorion modern sy'n berthnasol i archwilio, craffu a sicrwydd.
- Rhaid i o leiaf un person feddu ar gymhwyster proffesiynol gan un o'r cyrff cyfrifyddu proffesiynol yn unol â chyfarwyddyd adran 113 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

4.3 Dylai unigolion feddu ar, a gallu dangos, y rhinweddau canlynol:

- Uniondeb
- Agwedd gytbwys a chymesur wrth baratoi a rhoi cyngor
- Meddwl annibynnol
- Agwedd adeiladol ond sy'n barod i herio
- Y gallu i ddadansoddi
- Y gallu i graffu
- Hunanhyder.
- Parch at bobl eraill.

4.4 Cyn gynted â phosibl ar ôl eu penodiad, dylai unigolion:

- Fod yn gyfarwydd ag amcanion a phroblemau presennol arwyddocaol i'r Gwasanaeth Heddlu ar lefel genedlaethol a lleol.
- Fod yn gyfarwydd ag amcanion, cyfrifoldebau a phroblemau presennol arwyddocaol i Swyddfa'r Comisiynydd.
- Fod yn gyfarwydd â strwythur y Gwnstabliaeth.
- Fod yn gyfarwydd â'r trefniadau arolygu amrywiol sy'n effeithio ar waith y Gwasanaeth Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd.

**5. Penodi Cadeirydd**

5.1 Bydd y Cadeirydd naill ai'n cael ei benodi o aelodaeth bresennol y Cydbwyllgor neu, fel arall, gellir penderfynu cynnal proses recriwtio benodol i lenwi'r swydd.

**6. Deiliadaeth**

6.1 Ac eithrio lle y cyfeirir yn benodol ato ym mharagraff 6.2 ac yn ddarostyngedig i baragraff 6.3, bydd pob aelod, gan gynnwys y Cadeirydd, yn dal y swydd am dymor o bum (5) mlynedd, gyda deiliadaeth o ddim mwy na dau dymor yn olynol.

6.2 Gellir ymestyn tymor unrhyw aelod gan un flwyddyn trwy eithriad hefyd. Rhaid trafod y penderfyniad mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio ac yna dylid ei gadarnhau gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

6.3 Bydd pob aelod yn destun arfarniad blynyddol. Bydd unrhyw ail benodiad yn amodol ar arfarniadau blynyddol boddhaol yn ystod tymor eu penodiad. Bydd perfformiad yn cael ei arfarnu gan y Cadeirydd mewn cyfarfod blynyddol gydag aelodau unigol. Wedyn bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa'r Comisiynydd), Prif Swyddog Cyllid (Prif Gwnstabl) a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol - Sefydliad a ddylid ail benodi neu fel arall. Bydd y Cadeirydd yn destun asesiad perfformiad blynyddol gyda'r Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa'r Comisiynydd) / Prif Swyddog Cyllid (Prif Gwnstabl) / Prif Gwnstabl Cynorthwyol - Sefydliad.

6.4 Bydd unrhyw aelod o'r cydbwyllgor sy'n methu mwy na thri chyfarfod yn olynol yn peidio â bod yn aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio yn awtomatig, ac eithrio mewn amgylchiadau y gellir eu hesgusodi.

**7. Cyfraddau Cydnabyddiaeth Ariannol ( heb gynnwys y Cadeirydd)**

7.1 Telir cydnabyddiaeth ariannol yn unol â'r ffi a bennir gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Aelodau Tribiwnlysoedd Apêl yr Heddlu. Dyma'r cyfraddau (heb newid ers Ebrill 2007):

- Diwrnod llawn h.y. sesiwn dros 4 awr (heb gynnwys egwyl bwyd) £211.50.
- Hanner diwrnod h.y. sesiwn 4 awr neu lai (heb gynnwys egwyl bwyd) £104.50.
- Telir y ffi hanner diwrnod i aelodau ar gyfer paratoi cyn cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio. Telir y ffi hon hefyd os nad yw aelod yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod ond mae'n paratoi ac yn cyflwyno sylwadau i'r Cadeirydd i'w trafod yn y cyfarfod.

Sylwer: Bydd ffioedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol pan fydd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei gyhoeddi.

**8. Cyfraddau Cydnabyddiaeth Ariannol (Cadeirydd)**

8.1 Telir cydnabyddiaeth ariannol yn unol â'r ffi a bennir gan Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022/23. Dyma'r cyfraddau:

- Diwrnod llawn h.y. sesiwn dros 4 awr (heb gynnwys egwyl bwyd) £268.
- Hanner diwrnod h.y. sesiwn 4 awr neu lai (heb gynnwys egwyl bwyd) £134.
- Telir y ffi hanner diwrnod i'r Cadeirydd ar gyfer paratoi cyn cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio. Telir y ffi hon hefyd os nad yw'r Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod ond mae'n paratoi ac yn cyflwyno sylwadau i'w trafod yn y cyfarfod.

**9. Ad-dalu Costau Teithio**

9.1 Dylid defnyddio'r dull teithio mwyaf ymarferol, darbodus a chynaliadwy. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn archebu tocynnau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus os gwneir cais:

- Trên - ad-delir gwir gost tocyn taith safonol, ar yr amod bod tystiolaeth ar gael i ddangos mai dyma oedd y dewis mwyaf darbodus ar gyfer y dyddiad a'r amser teithio.
- Ceir, faniau a beiciau modur - ad-delir costau ar gyfradd gymeradwy Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (adeg paratoi'r adroddiad hwn, cyfradd y filltir ar gyfer car yw 55c hyd at 10,000 o filltiroedd).

**10. Cylch Gwaith**

**Rheolaeth Ariannol**

- Adolygu'r datganiad o gyfrifon blynyddol. Yn benodol, ystyried a yw polisïau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn ac a yw'r datganiadau ariannol neu'r archwiliad yn codi unrhyw bryderon y mae angen eu dwyn i sylw'r Comisiynydd a/neu'r Prif Gwnstabl.
- Ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar faterion sy'n codi o'r archwiliad o gyfrifon y datganiadau ariannol.
- Monitro uniondeb unrhyw ddatganiadau ariannol a gyhoeddir ac unrhyw gyhoeddiadau ffurfiol yn ymwneud â pherfformiad ariannol.

- Ystyried a gwneud sylwadau ar unrhyw bolisi neu strategaeth yn ymwneud â chronfeydd wrth gefn.
- Ystyried a gwneud sylwadau ar y broses cynllunio cyllidebol.
- Ystyried a gwneud sylwadau ar y Strategaeth Ariannol (Cynllun Ariannol Tymor Canolig).
- Ystyried a gwneud sylwadau ar unrhyw bolisi neu strategaeth yn ymwneud â benthyciadau neu fuddsoddiadau.

**Llywodraethu**

- Adolygu ac argymell cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd cyn iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol ac ystyried a yw'n adlewyrchiad priodol o'r amgylchedd llywodraethu, risg a rheoli a'r prosesau sicrwydd ategol a nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i'w wella.
- Argymell bod unrhyw God Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer yr Heddlu neu Swyddfa'r Comisiynydd yn cael ei gymeradwyo.
- Ystyried y trefniadau i sicrhau Gwerth am Arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.
- Ystyried fframwaith sicrwydd y bwrdd a sicrhau ei fod yn rhoi sylw digonol i risgiau a blaenoriaethau Swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu.
- Ystyried sicrwydd o ran a yw'r trefniadau llywodraethu'n foddhaol ac yn gweithredu'n effeithiol ar gyfer partneriaethau neu gydweithrediad arwyddocaol.
- Ystyried a gwneud sylwadau ar adroddiadau blynyddol llywodraethu gwybodaeth.
- Ystyried a gwneud sylwadau ar unrhyw bolisi neu strategaeth yn ymwneud â rheoli asedau.
- Comisiynu gwaith sicrwydd e.e. cyngor neu archwiliad arbenigol.
- Ystyried a gwneud sylwadau ar unrhyw adroddiadau gan sefydliadau allanol y mae swyddogion yn eu hystyried i fod yn berthnasol.
- Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd prosesau rheoli mewnol a monitro'r gwaith o roi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith.

**Risg**

- Monitro'r gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau rheoli risg yn effeithiol, adolygu'r proffil risg, a monitro cynnydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wrth iddynt roi sylw i faterion sy'n gysylltiedig â risg y maent yn cael eu hysbysu amdanynt.
- Deall unrhyw risgiau moesegol ac unrhyw fentrau i wella ymddygiad moesegol o fewn yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd.

**Twyll**

- Ystyried a gwneud sylwadau ar drefniadau gwrth-dwyll a llygredd gan gynnwys "chwythu'r chwiban".
- Ystyried a gwneud sylwadau ar bolisïau buddiannau busnes a rhoddion a lletygarwch.
- Adolygu'r proffil risg twyll a'r amcangyfrif o golledion twyll neu niwed posibl i'r sefydliad a'i gymuned leol.
- Adolygu'r cynllun gweithgareddau ac adnoddau gwrth-dwyll blynyddol, a cheisio sicrwydd ei fod yn unol â'r strategaeth a'r proffil risg twyll.
- Monitro perfformiad cyffredinol y swyddogaeth gwrth-dwyll.
- Goruchwylio unrhyw feysydd twyll mawr a nodwyd a monitro camau gweithredu i roi sylw i wendidau o ran rheolaeth.

**Archwilio Mewnol**

- Adolygu'r cynllun archwilio mewnol ac unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r cynllun archwilio mewnol.
- Goruchwylio'r dull penodi ac ystyried digonolrwydd perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol a'i annibyniaeth.
- Ystyried adroddiad blynyddol a barn y pennaeth archwilio mewnol.

- Derbyn crynodeb rheolaidd o gynnydd gweithgarwch archwilio mewnol yn erbyn y cynllun archwilio.
- Derbyn ac adolygu adroddiadau archwilio mewnol a monitro cynnydd y gwaith o roi unrhyw argymhellion ar waith, gan sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau yn brydlon.
- Sicrhau bod perfformiad pob darparwr archwiliad mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Adroddiad PSIAS allanol i'w ddarparu o leiaf unwaith bob pum mlynedd, gan gynnwys ei gasgliad cyffredinol ac unrhyw argymhellion.
- Monitro'r cynllun gwella PSIAS o ganlyniad i'r asesiad allanol.

**Archwilio Allanol**

- Ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
- Ystyried y ffioedd a godir.
- Gwneud sylwadau ar gwmpas a manylder gwaith archwilio allanol, ei annibyniaeth ac a yw'n cynnig gwerth am arian.
- Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunir â'r archwilydd allanol.
- Cynghori ac argymell ar effeithiolrwydd cydberthnasau rhwng archwilio allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill.
- Derbyn crynodeb rheolaidd o gynnydd gweithgarwch archwilio allanol a monitro cynnydd y gwaith o roi unrhyw argymhellion ar waith, gan ddarparu her yn erbyn amseroedd cwblhau.

**Trefniadau Atebolrwydd**

- Llunio adroddiad amserol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gyda chyngor ac argymhellion mewn cysylltiad ag unrhyw fater y mae'n ystyried sy'n berthnasol i lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ariannol.
- Darparu Adroddiad Blynyddol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar ei ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion mewn cysylltiad â digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu gwaith llywodraethu, fframweithiau rheoli risg a rheoli mewnol, trefniadau adroddiadau ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.
- Adolygu ei berfformiad yn flynyddol yn erbyn ei gylch gwaith ac amcanion a hysbysu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl o ganlyniadau'r adolygiad hwn.
- Cynnal proses hunanasesu blynyddol i sicrhau bod y Cydbwyllgor Archwilio'n cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol a'i fod yn derbyn y gefnogaeth ofynnol.

11. **Llinell Adrodd:** Bydd y Cydbwyllgor Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Byddai angen i unrhyw bryderon gan yr archwilwyr allanol gael eu lleisio trwy gyfrwng y Cadeirydd a fyddai'n cysylltu â'r Prif Swyddog Cyllid neu'r Swyddog Monitro.

12. **Cysylltiadau:** Wrth gyflawni ei waith gall y Cydbwyllgor Archwilio wneud cysylltiadau (uniongyrchol neu anuniongyrchol) gyda'r canlynol ac unrhyw sefydliadau eraill y bernir eu bod yn briodol:
    - Prif Swyddogion Cyllid y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl
    - Swyddog Monitro
    - Pennaeth Archwilio Mewnol
    - Archwilwyr Allanol
    - Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
    - Panel yr Heddlu a Throsedd
    - Pwyllgorau a Chydweithrediadau Rhanbarthol
    - Partneriaethau

13. **Aelodau'r Pwyllgor:** Pump o bobl, annibynnol ar y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd.

14. **Cworwm:** 3

15. **Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd**
Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu cadarnhau yn flynyddol mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio. Nid oes cyfyngiad o ran am ba hyd y gall Cadeirydd neu Is-gadeirydd wasanaethu.

16. **Nifer y cyfarfodydd:** Cynhelir pum cyfarfod ffurfiol bob blwyddyn (efallai y bydd angen cyfarfodydd ffurfiol ychwanegol).

17. **Gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus:** Bydd yr agenda, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd swyddogol ar gael ar wefannau Swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu.

18. **Y rhai a fydd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio**
Dylai'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fod yn bresennol neu dylent gael eu cynrychioli'n briodol yng nghyfarfodydd ffurfiol y Cydbwyllgor Archwilio.

**Hefyd yn bresennol**

- Prif Weithredwr
- Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa'r Comisiynydd)
- Prif Gwnstabl Cynorthwyol Sefydliad
- Prif Swyddog Cyllid (Prif Gwnstabl)
- Prif Uwch-arolygydd, Pennaeth Gwelliant Parhaus
- Archwilio mewnol
- Archwilio Allanol
- Swyddogion eraill o Swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu, yn ôl y gofyn.